

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Cader,
Dolgellau

Dyddiad arolygu: 12 Tachwedd
2019

Dyddiad cyhoeddi: 13 Chwefror
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	28
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Cader yn Ffordd y Gader, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1RJ ar 12 Tachwedd 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Cader, Dolgellau yn darparu gwasanaeth deintyddol cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Rhoddwyd digon o wybodaeth i'r cleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a gawsant.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o feysydd y mae angen eu gwella er mwyn cefnogi'r broses o ddarparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Gofyn am farn cleifion
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio pelydr-X yn ddiogel
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofnodion clinigol cleifion
- Sicrhau y gosodir dolenni newydd yn lle unrhyw ddolenni rhydlyd ar y droriau a'r cabinetau yn y ddeintyddfa
- Sicrhau y caiff y ffenestr yn y ddeintyddfa ei hailselio
- Mae'n rhaid i'r practis roi rhaglen o archwiliadau clinigol ar waith
- Adolygiadau cymheiriaid clinigol i gael eu rhoi ar waith a chofnodion ffurfiol i gael eu cynnal

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Practis deintyddol preifat yn unig yw Practis Deintyddol Cader ac mae'n darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Dolgellau.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un prif ddeintydd, un nyrs ddeintyddol a chynorthwydd gweinyddol rhan-amser.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Cawsom gyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Mae'n ardderchog bob amser"

"Rwy'n dwlu ar y practis hwn a'i staff"

"Tîm ardderchog"

"Seren fawr"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'n ardderchog fel y mae"

"Mae eisoes yn ardderchog ac mae'r deintydd a'r staff yn wych"

“Da iawn”

“Mae popeth yn ardderchog”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd digon o wybodaeth bwrpasol ar gael am hybu iechyd deintyddol yn y dderbynfa a'r ardal aros, a oedd yn golygu y gallai'r cleifion gael gwybodaeth a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg. Roedd posterï a thafleenni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i'r cleifion am y practis deintyddol ac iechyd y geg.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Nodwyd bod gwybodaeth am brisiau ar gael ger ardal y dderbynfa a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth am gost bosibl eu triniaeth.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys ardal lle gallai'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.

Nodwyd gennym fod 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol² ar gael i gleifion ar gais yn y practis. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r

¹ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn manau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

² <https://standards.gdc-uk.org/>

tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall y cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth ar gyfer cleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth – cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny – a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'r gost cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u nodi mewn sampl o gofnodion cleifion a welsom. O ganlyniad, roedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros hefyd.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion a oedd ar gael yn yr ardal aros. Roedd y daflen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedwyd wrthym fod un aelod o'r staff yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei hyrwyddo. Cytunodd y practis i drefnu bod y poster iaith Gwaith yn cael ei arddangos wrth ddesg y dderbynfa. Mae brand iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi siaradwyr Cymraeg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod y practis yn hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i gleifion.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau.

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth ar gael i'r cleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y brif fynedfa, roedd i'w glywed ar neges y peiriant ateb, ac roedd i'w weld ar y wefan a'r daflen wybodaeth i gleifion.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a gwelsom y gofynnwyd i bob claf am gydsyniad i driniaeth.

Gwelsom dystiolaeth bod hanes meddygol y claf yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau ym mhob apwyntiad lle byddai'r claf yn cael triniaeth.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Mae'r practis ar y llawr gwaelod, ac mae'n gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Gallai'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gael mynediad i'r dderbynfa, yr ardal aros, y toiledau a'r ddeintyddfa.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod gan y practis bolisi cwyno ysgrifenedig. Roedd y gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn gwneud cwyn neu godi pryder wedi'u harddangos yn amlwg yn yr ardal aros. Fodd bynnag, nid oedd yr hysbysiad yn cynnwys manylion cyswllt

AGIC, fel yr awdurdod cofrestru. Rhoddwyd sicrwydd i ni ar lafar y bydd y polisi yn cael ei ddiweddarau. Cawsom gadarnhad yn dilyn ein hymweliad fod y polisi wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis systemau i gofnodi unrhyw gwynion a gyflwynir, eu monitro ac ymateb iddynt. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol.

Gwnaethom drafod system y practis i geisio adborth gan gleifion; mae'r practis yn gwneud hyn drwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y dderbynfa. Ar ôl dadansoddi'r adborth, caiff y manylion eu trafod â'r tîm deintyddol a gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diweddaraf yn gadarnhaol. Gwelsom hefyd fod y practis yn arddangos dadansoddiad o adborth y cleifion yn yr ardal aros. Roedd hyn yn dangos i'r cleifion a oedd yn ymweld â'r practis fod eu hadborth wedi'i ystyried a bod y practis wedi gweithredu arno er mwyn dysgu gwersi a gwella'r gwasanaeth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau yn y ddeintyddfa a'r ystafell ddihalogi.

Nodwyd gennym hefyd fod angen rhoi rhaglen o archwiliadau clinigol ac adolygiadau cymheiriaid clinigol ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn canolbwyntio ar wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo yn barhaus.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Wrth fynd o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y llawr y tu ôl i'r dderbynfa wedi cael ei ddifrodi. Cawsom sicrwydd ar lafar y bydd y llawr yn cael ei drwsio. Cawsom gadarnhad yn dilyn yr ymweliad fod cynlluniau wedi cael eu rhoi ar waith i drwsio'r llawr ar unwaith.

Nodwyd gennym hefyd fod nifer o fesuryddion trydan yn lobi'r brif fynedfa. Nid oedd blwch wedi cael ei adeiladu o gwmpas pob un o'r mesuryddion er mwyn sicrhau eu bod wedi'u gosod yn sownd i'r wal. Er mwyn atal mynediad anawdurdodedig i'r mesuryddion, gwnaethom argymhell y dylid adeiladu blwch o gwmpas pob un o'r mesuryddion er mwyn sicrhau eu bod wedi'u gosod yn sownd. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym mai'r landlord oedd yn gyfrifol am y mesuryddion trydan ac y bydd trefniadau priodol yn cael eu gwneud.

Roedd toiledau ar gael at ddefnydd y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir i'r cyfleusterau.

Roedd y prif ddeintydd a'r nyrs ddeintyddol wedi cael hyfforddiant tân. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod trefniadau ar waith i'r cynorthwyydd gweinyddol gael hyfforddiant tân mewnol. Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy, ac roedd poster iechyd a diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith a gwelsom yr asesiadau risg diweddaraf, a oedd wedi cael eu cwblhau gan sefydliad trydydd parti. Nodwyd gennym fod yr adroddiad wedi amlygu rhai argymhellion i'r practis eu rhoi ar waith. Gwnaethom drafod yr asesiadau risg â'r rheolwr cofrestredig, a roddodd sicrwydd i ni ar lafar y bydd y camau gweithredu a nodwyd yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith.

Nodwyd gennym fod gweithdrefnau amrywiol ar waith yn y practis er mwyn cynnal a chadw'r adeilad a sicrhau parhad gofal y busnes. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan y practis bolisi penodol ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad na chynllun parhad busnes ar waith. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig sicrwydd i ni ar lafar y caiff yr holl weithdrefnau amrywiol eu hadolygu ac y caiff polisi a chynllun penodol eu datblygu. Cawsom gadarnhad yn syth ar ôl ein hymweliad fod y practis wedi datblygu polisi penodol ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad yn ogystal â chynllun parhad busnes.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod y llawr y tu ôl i'r dderbynfa'n cael ei drwsio.

Sicrhau y caiff blwch ei adeiladu o gwmpas pob un o'r mesuryddion trydan yn y lobi er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.

Sicrhau bod y cynorthwyydd gweinyddol yn cael hyfforddiant tân mewnol.

Sicrhau y caiff yr holl gamau a nodwyd yn yr asesiad risg lechyd a Diogelwch a Thân eu hystyried a'u rhoi ar waith.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) cyfarpar deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru

(WHTM) 01-05³. Roedd y cyfleuster yn lân, yn drefnus ac yn cynnwys adnodau digonol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen selio'r llawr yn yr ystafell ddihalogi at ddibenion glanhau'n effeithiol. Nodwyd gennym hefyd fod angen ailselio'r bwrdd gwaith y tu ôl i'r sinc gan fod hwn yn achosi problem o ran rheoli heintiau a bod risg o groeshalugi. Trefnodd y rheolwr cofrestredig ar unwaith i'r ardaloedd hyn gael eu hailselio yn ystod ein hymweliad.

Gwnaethom ystyried y trefniadau dihalogi ac roedd y broses a welsom yn foddhaol. Dangosodd y staff y broses ddihalogi a gwelsom y canlynol:

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddiwyd i lanhau a sterileiddio offerynnau mewn cyflwr da
- Roedd offerynnau'n cael eu storio'n briodol a'u dyddio
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i amddiffyn staff rhag anaf a/neu haint
- Roedd y cynwysyddion storio offerynnau yn gryf ac roedd ganddynt gaeadau.

Gwelsom fod y gweithdrefnau a ddilynir i lanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn cyd-fynd â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dihalogi.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol er mwyn gwirio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd llyfr cofnod ar gael ar gyfer defnyddio'r awtoclaf⁴ a gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant.

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

⁴ Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau drwy ddefnyddio ager dirlawn pwysedd uchel

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Roedd yr archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau a gwelsom dystiolaeth bod y cynllun gweithredu dilynol wedi cael ei roi ar waith.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i ymdrin ag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag feirysau a gludir yn y gwaed.

Roedd gan y practis system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis drefnu i'r bin gwastraff (clinigol) peryglus sydd wedi'i leoli ger y brif fynedfa gael ei glymu wrth y wal. Cawsom hysbysiad yn dilyn ein hymweliad yn cadarnhau bod y bin gwastraff wedi cael ei glymu'n sownd i'r ffens.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol ymhlith cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) diweddaraf. Fodd bynnag, nodwyd gennym ei bod yn bryd i'r swyddog cymorth cyntaf adnewyddu ei hyfforddiant. Cawsom gadarnhad yn dilyn ein hymweliad fod yr hyfforddiant perthnasol wedi cael ei drefnu.

Roedd y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn digwydd yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y rhain yn cael eu gwirio bob mis. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis wirio'r holl gyfarpar a chyffuriau brys bob wythnos yn unol â'r safonau a bennir gan y Cyngor Dadebru (DU).

Gwelsom fod y staff yn gwirio'r silindr ocsigen bob dydd. Nodwyd gennym ei bod yn bryd i'r silindr ocsigen gael ei wasanaeth blynyddol. Gwnaethom argymhell bod y practis yn cynnwys gwasanaethu'r silindr ocsigen yn ei raglen o wiriadau cynnal a chadw blynyddol. Cawsom gadarnhad yn dilyn ein hymweliad fod trefniadau wedi cael eu gwneud i wasanaethu'r silindr ocsigen.

Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod aelod o'r staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Sicrhau bod yr holl gyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu gwirio bob wythnos.

Sicrhau bod y silindr ocsigen yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg, ac roedd polisïau diogelu ar waith.

Roedd y practis wedi penodi aelod o'r staff i arwain materion diogelu, a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei ddilyn, ac yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad i'r staff ar faterion diogelu.

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda'r prif ddeintydd a'u bod yn hyderus y byddai'n ymateb i'r pryderon hyn.

Disgrifiodd y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁵ ar staff sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael gwiriad dilys

⁵ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i fod wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom edrych ar y ddeintyddfa a gweld ei bod yn cynnwys cyfarpar priodol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod y ddeintyddfa wedi cael ei chynllunio a'i threfnu er mwyn helpu'r tîm i weithio'n effeithiol a'i bod yn lân yr olwg. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai o'r dolenni ar y droriau a'r cypyrddau yn y ddeintyddfa yn rhydlyd. Gwnaethom argymhell y dylid gosod dolenni newydd yn lle unrhyw ddolenni rhydlyd at ddibenion glanhau'n effeithiol. Cawsom gadarnhad yn dilyn yr ymweliad fod y dolenni newydd wedi cael eu harchebu.

Gwelsom hefyd fod y ffenestr yn y ddeintyddfa yn gollwng. Cawsom ein sicrhau gan y rheolwr cofrestredig fod landlord y safle wedi gwneud cynlluniau i drwsio'r ffenestr. Oherwydd lleoliad y safle a'r ffenestr, bydd angen codi sgaffald. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gweithwyr eisoes wedi ymweld â'r safle i gynnal asesiad er mwyn ailselio'r ffenestr. Dywedwyd wrthym hefyd y bydd y ddeintyddfa a'r ystafell ddihalogi yn cael eu hailaddurno ar ôl i'r ffenestr gael ei hailselio.

Mae gan y ddeintyddfa ddau ddrws. Mae'r claf yn defnyddio un drws i fynd i mewn i'r ddeintyddfa ac mae'r staff yn defnyddio'r drws arall i gyrraedd yr ystafell staff. Fodd bynnag, nid oedd arwydd 'staff yn unig' ar y drws. Gwnaethom argymhell y dylid rhoi arwydd 'staff yn unig' ar y drws i'r ystafell staff. Gwnaethom hefyd argymhell y dylid cloi drws yr ystafell staff pan na fydd y dderbynfa'n cael ei goruchwyllo.

Gwelsom fod y peiriant pelydr-X wedi cael ei wasanaethu a gwelsom y ddogfennaeth cynnal a chadw. Hefyd, gwelsom dystiolaeth bod y prif ddeintydd wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X blynyddol. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd ar lafar fod y rhain wedi cael eu cwblhau, ond na ellid dod o hyd iddynt ar ddiwrnod ein harolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau y gosodir dolenni newydd yn lle unrhyw ddolenni rhydlyd ar y droriau a'r cypyrddau yn y ddeintyddfa.

Sicrhau y caiff y ffenestr yn y ddeintyddfa ei hailselio.

Sicrhau y caiff arwydd 'staff yn unig' ei roi ar ddrws yr ystafell staff.

Sicrhau bod drws yr ystafell staff wedi'i gloi pan na fydd y dderbynfa'n cael ei goruchwyllo.

Sicrhau y caiff yr archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X blynyddol a gwblhawyd eu hanfon i AGIC.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roeddem yn gallu gweld bod y practis wedi cwblhau rhai archwiliadau megis croes-heintio, cofnodion clinigol, canser y geg, ffeiliau staff ac adborth gan gleifion. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi archwilio clinigol na rhaglen benodedig ar waith i gynnal amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol. Argymhellwn fod y practis yn datblygu polisi archwilio clinigol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, sy'n nodi rhaglen o archwiliadau drwy gydol y flwyddyn, ac a ddylai hefyd gynnwys yr Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid (CAPRO) o archwiliadau rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu. Rydym yn cynghori'r practis i ddefnyddio templedi archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i'w gefnogi â'r rhaglen o archwiliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu polisi archwilio clinigol a rhoi rhaglen ehangach o archwiliadau clinigol ar waith.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cadarnhaodd y practis nad yw wedi defnyddio adnodd Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Adnodd hunanwerthuso yw hwn sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar y ffordd y mae'n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn ystod o

feysydd. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried adnodd hunanwerthuso o ryw fath.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad yw'r practis wedi cynnal adolygiadau gan gymheiriaid o'r staff clinigol. Mae adolygiadau gan gymheiriaid yn rhoi cyfle i ddeintyddion ddod ynghyd i adolygu agweddau ar y practis. Y nod yw rhannu profiadau a nodi meysydd lle y gellir gwneud newidiadau gyda'r bwriad o wella ansawdd y gwasanaeth a gynigir i gleifion. Argymhellwn yn gryf y dylid cynnal adolygiadau gan gymheiriaid clinigol ar gyfer y prif ddeintydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal adolygiadau gan gymheiriaid clinigol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau'r cleifion yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copiâu wrth gefn yn cael eu cadw o bob ffeil electronig yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gudd bob amser. Roedd polisi diogelu data ar waith.

Cadw cofnodion

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion a gwblhawyd gan y prif ddeintydd.

Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol boddhaol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o feysydd i'w gwella.

Gwnaethom drafod â'r prif ddeintydd bwysigrwydd cofnodi BPE sylfaenol ar gyfer cleifion a chofnodi profion sgrinio am ganser. Tynnwyd sylw at y rhain yn ffurfiol fel meysydd i'w gwella yn ystod ein harolygiad diwethaf. Argymhellwn yn gryf y dylai'r prif ddeintydd fwrw golwg dros ganllawiau Cymdeithas Beriodontal Prydain, yn ogystal â chanllawiau 'Delivering Better Oral Health'. Cawsom gadarnhad yn dilyn yr ymweliad fod y prif ddeintydd wedi adolygu a diweddarau'r wybodaeth o ran y canllawiau periodontal er mwyn sicrhau bod y practis yn dilyn y canllawiau cywir.

Argymhellwn hefyd y dylid cynnwys mwy o fanylion am yr opsiynau triniaeth a drafodir â'r cleifion a chofnodi mwy o fanylion am unrhyw gyngor ar hylendid y geg a deiet a roddir iddynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cofnodi a diweddarau BPE sylfaenol a phrofion sgrinio am ganser.

Y prif ddeintydd i fwrw golwg dros ganllawiau Cymdeithas Beriodontal Prydain, yn ogystal â chanllawiau 'Delivering Better Oral Health'.

Cofnodi mwy o fanylion am yr opsiynau triniaeth a drafodir â'r cleifion ac unrhyw gyngor ar hylendid y geg a deiet a roddir iddynt.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y tîm o staff yn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Perchennog Practis Deintyddol Cader yw'r prif ddeintydd, y rheolwr cofrestredig⁶ a'r unigolyn cyfrifol enwebedig⁷.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol â'r prif ddeintydd a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau.

⁶ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

⁷ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017)

Nodwyd gennym fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd y staff yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau, a oedd ar gael yn electronig ac ar ffurf copi caled. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi llofnodi'r polisiâu i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y polisiâu canlynol, sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, ar waith:

- Recriwtio, sefydlu a chadw cyflogeion, eu hamodau cyflogaeth a'u gofynion hyfforddiant
- Archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion
- Y trefniadau wrth gefn i'w dilyn mewn argyfwng, sy'n sicrhau bod y practis deintyddol preifat yn parhau i weithredu'n ddiogel
- Y trefniadau ar gyfer ymdrin ag argyfyngau meddygol sy'n sicrhau bod y staff a all fod yn rhan o'r broses o ymdrin ag argyfwng meddygol yn cael hyfforddiant priodol.

Gwnaethom argymhell hefyd y dylai'r practis adolygu'r gweithdrefnau allweddol canlynol a datblygu polisiâu penodol:

- Y trefniadau ar gyfer derbyn cleifion
- Y trefniadau ar gyfer asesu, diagnosisio a thrin cleifion
- Sicrhau bod y safle a ddefnyddir i gynnal y practis deintyddol preifat yn addas at y diben hwnnw bob amser
- Monitro ansawdd ac addasrwydd y cyfleusterau a'r cyfarpar, gan gynnwys cynnal a chadw cyfarpar o'r fath
- Nodi, asesu a rheoli risgiau i gyflogeion, cleifion, ymwelwyr a'r bobl sy'n gweithio yn y practis neu at ddibenion y practis
- Creu, rheoli, trin a storio cofnodion a gwybodaeth arall
- Darparu gwybodaeth i gleifion ac eraill, gan gynnwys hysbysiadau clir i gleifion am unrhyw ffioedd sy'n daladwy am wasanaethau deintyddol preifat
- Recriwtio, sefydlu a chadw cyflogeion, eu hamodau cyflogaeth a'u gofynion hyfforddiant

Gan fod angen datblygu rhai polisiau allweddol, gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu holl bolisiau a gweithdrefnau'r practis er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y safonau a'r rheoliadau. Cawsom gadarnhad yn dilyn yr arolygiad fod yr holl bolisiau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a bod polisiau newydd wedi cael eu datblygu, yn ôl yr angen, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd yn amlwg o'n trafodaethau â'r darparwr cofrestredig nad oedd yn ddigon ymwybodol o'r rheoliadau nac yn eu deall. Argymhellwn yn gryf y dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu a gwella ei wybodaeth am Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom gopi o'r datganiad o ddiben a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyffredol hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal adolygiad trylwyr o'r holl bolisiau a gweithdrefnau a sicrhau bod yr holl bolisiau sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar waith.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella ei wybodaeth am Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Nodwyd gennym fod gan yr aelodau o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Gwelsom hefyd fod gan y practis raglen sefydlu, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a gwelsom fod cofnodion manwl yn cael eu cadw. Os na all unrhyw aelod o staff fod yn bresennol, mae'r prif ddeintydd yn tynnu ei sylw at y cofnodion. Mae hyn

yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r materion a'r trafodaethau a gynhelir mewn perthynas â'r practis.

Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod angen selio'r bwrdd gwaith y tu ôl i'r sinc, a'r llawr yn yr ystafell ddihalogi.	Roedd y rhain yn achosi problem o ran rheoli heintiau ac roedd risg o groeshalogi.	Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd at hyn, a drefnodd ar unwaith i'r ardaloedd gael eu hailselio.	Cafodd yr holl ardaloedd a nodwyd eu hailselio yn ystod ein hymweliad, at ddibenion glanhau'n effeithiol.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cader, Dolgellau

Dyddiad arolygu: 12 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio uniongyrchol yn ystod yr ymweliad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cader, Dolgellau

Dyddiad arolygu: 12 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Sicrhau bod y practis yn hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i gleifion.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Mae poster Cymraeg ar ddrws y dderbynfa erbyn hyn	Uday Georgis	
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod y llawr y tu ôl i'r dderbynfa'n cael ei drwsio.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; PDR 22	Mae'r rhan o'r llawr a oedd wedi'i difrodi wedi cael ei thrwsio erbyn hyn yn dilyn argymhelliad AGIC	Uday Georgis	
Sicrhau y caiff blwch ei adeiladu o gwmpas pob un o'r mesuryddion trydan yn y lobi er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.		Mae'r landlord wedi gosod y mesurydd trydan yn y lobi yn sownd mewn blwch.	Uday Georgis	

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau bod y cynorthwydd gweinyddol yn cael hyfforddiant tân mewnol.		Cwblhaodd y cwrs ar-lein ac mae'n aros am un mewnol arall yn y dyfodol	Uday Georgis	
Sicrhau y caiff yr holl gamau a nodwyd yn yr asesiad risg lechyd a Diogelwch a Thân eu hystyried a'u rhoi ar waith.		Caiff yr holl gamau a nodwyd yn yr asesiad risg lechyd a Diogelwch a Thân eu hystyried a'u rhoi ar waith	Uday Georgis	
Sicrhau bod aelod o'r staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; PDR 22 a 31	Rwy'n swyddog cymorth cyntaf ardystiedig erbyn hyn ar ôl cwblhau cwrs	Uday Georgis	
Sicrhau bod yr holl gyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu gwirio bob wythnos.		Dechreuwyd ar y gwaith o wirio'r holl gyfarpar a chyffuriau brys bob wythnos erbyn hyn	Uday Georgis	
Sicrhau bod y silindr ocsigen yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn.		Trefnwyd i'r silindr ocsigen gael ei wasanaethu bob blwyddyn	Uday Georgis	
Sicrhau y gosodir dolenni newydd yn lle unrhyw ddolenni rhydlyd ar y droriau a'r cypyrddau yn y ddeintyddfa.	2.9 Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig; PDR 13	Gosodwyd dolenni newydd yn lle'r dolenni rhydlyd ar rai cabinetau yn y ddeintyddfa	Uday Georgis	
Sicrhau y caiff y ffenestr yn y ddeintyddfa ei hailselio.		Mae'r holl ffenestri yn y practis bellach wedi cael eu selio a'u paentio o'r tu allan a'r tu mewn	Uday Georgis	

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau y caiff arwydd 'staff yn unig' ei roi ar ddrws yr ystafell staff.		Mae arwydd 'staff yn unig' wedi'i roi ar ddrws yr ystafell staff	Uday Georgis	
Sicrhau bod drws yr ystafell staff wedi'i gloi pan na fydd y dderbynfa'n cael ei goruchwyllo.		Rydym wedi dechrau cloi drws yr ystafell staff pan na fydd derbynnydd ar gael	Uday Georgis	
Sicrhau y caiff yr archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X blynyddol a gwblhawyd eu hanfon i AGIC.		Wedi'i gwblhau. Gweler y ddogfen a lawrlwythwyd	Uday Georgis	
Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu polisi archwilio clinigol a rhoi rhaglen ehangach o archwiliadau clinigol ar waith.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; PDR 16	Mae pob un ohonynt wedi'u gwneud a'u rhoi ar waith	Uday Georgis	
Cynnal adolygiadau gan gymheiriaid clinigol.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; PDR 16	Dechreuwyd cynnal adolygiadau gan gymheiriaid gyda phracticis pellach i ffwrdd (yn Amwythig) ar ôl i ni fethu â chael ymateb gan bractisau eraill yn yr ardal	Uday Georgis	
Cofnodi a diweddarau BPE sylfaenol a phrofion sgrinio am ganser.	3.5 Cadw cofnodion; PDR 20	O ran BPE, dechreuwyd cofnodi mwy na'r hyn a wnaethom eisoes a dechreuwyd cofnodi profion sgrinio hefyd	Uday Georgis	

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Y prif ddeintydd i fwrw golwg dros ganllawiau Cymdeithas Beriodontal Prydain, yn ogystal â chanllawiau 'Delivering Better Oral Health'.		Dechreuwyd bwrw golwg dros ganllawiau Cymdeithas Beriodontal Prydain yn dilyn yr ymweliad gan AGIC er mwyn rhoi modd i mi ddarparu cyfarwyddiadau gwell ar iechyd y geg	Uday Georgis	
Cofnodi mwy o fanylion am yr opsiynau triniaeth a drafodir â'r cleifion ac unrhyw gyngor ar hylendid y geg a deiet a roddir iddynt.		Dechreuwyd cofnodi mwy o fanylion nag o'r blaen am yr opsiynau triniaeth a drafodir a'r cyngor a roddir yn dilyn yr ymweliad gan AGIC	Uday Georgis	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal adolygiad trylwyr o'r holl bolisiâu a gweithdrefnau a sicrhau bod yr holl bolisiâu sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar waith.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolwydd; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rwy'n adolygu'r polisiâu bob blwyddyn ac mae'r dyddiad ar waelod y polisiâu eisoes yn dangos hyn	Uday Georgis	
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella ei wybodaeth am Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.		Darllenais y llyfr cyfan a argymhellwyd gan staff AGIC ar eu hymweliad diwethaf, ar 12/11/2019	Uday Georgis	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Uday Georgis

Teitl swydd: Deintydd

Dyddiad: 20/01/2020